**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Materion yn ymwneud â chyfrifo, llywodraethu a phriodoldeb yn Swyddfa Archwilio Cymru

Mawrth 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8639
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: YPwyllgorCyfrifonCyhoeddus.comm@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Materion yn ymwneud â chyfrifo, llywodraethu a phriodoldeb yn Swyddfa Archwilio Cymru

Mawrth 2011

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sicrhau bod gwariant Llywodraeth Cymru'n cael ei archwilio'n briodol ac yn drylwyr, a bod yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn glynu wrth y safonau uchaf posibl wrth reoli eu materion ariannol. Mae'n gwneud hyn er mwyn i bobl Cymru allu teimlo'n hyderus bod eu harian yn cael ei wario'n synhwyrol ac yn dda.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am aelodau, cylch gwaith a chyhoeddiadau blaenorol y Pwyllgor yn: **www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-ac-home.htm**

**Pwerau**
Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007. Mae ei bwerau wedi'u gosod allan yn Rheolau Sefydlog Llywodraeth Cynulliad Cymru, a Rheol Sefydlog13 yn benodol. Mae'r rhain ar gael yn **www.cynulliadcymru.org**.

**Aelodau'r Pwyllgor**



**Darren Millar (Cadeirydd)**
Clwyd West
Plaid Geidwadol Cymru



**Lorraine Barrett**
De Caerdydd a Phenarth
Llafur



**Peter Black**
Gorllewin De Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Jeff Cuthbert**
Caerffili
Llafur



**Alun Davies**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llafur



**Irene James**
Islwyn
Llafur



**Bethan Jenkins**
Gorllewin De Cymru
Plaid Cymru



**Sandy Mewies**
Delyn
Llafur



**Jonathan Morgan**
Gogledd Caerdydd
Plaid Geidwadol Cymru



**Janet Ryder**
Gogledd Cymru
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion y Pwyllgor** .......... **5**

**1. Cyflwyniad** .......... **6**

**2. Ystyriaethau cyfrifyddu** .......... **8**

Trosolwg .......... 8

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu .......... 10

Casgliadau ar y driniaeth gyfrifyddu .......... 10

**3. Priodoldeb** .......... **12**

Ymddygiad Troseddol .......... 12

Priodoldeb pecyn diswyddo Anthony Snow .......... 12

Hawliadau am hyfforddiant a threuliau .......... 13

Ymddygiad staff eraill Swyddfa Archwilio Cymru .......... 14

**4. Llywodraethu** .......... **16**

**5. Casgliadau** .......... **19**

**6. Tystion** .......... **21**

**7. Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig** .......... **22**

## Argymhellion y Pwyllgor

Rhestrir isod argymhellion y Pwyllgor i Archwilydd Cyffredinol Cymru yn y drefn maent yn ymddangos yn yr Adroddiad. Gweler y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth ategol a'r casgliadau:

Er mwyn cywiro'r methiannau a ddigwyddodd mewn datganiadau ariannol blaenorol rydym yn argymell:

- dylai Swyddfa Archwilio Cymru ofyn am gyfarwyddyd cyfrifon wedi'i ddiweddaru gan y Trysorlys sy'n adlewyrchu pasio Deddf Llywodraeth Cymru 2006, sefydlu Cronfa Gyfunol Cymru, a'r gofyniad statudol i wariant gan Swyddfa Archwilio Cymru gael ei awdurdodi gan gynnig cyllidebol y Cynulliad;
- dylai Cyfrifon 2010-11 gydymffurfio'n llawn â'r cyfarwyddyd cyfrifon diwygiedig a'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol gan ystyried yr holl faterion cyfrifyddu ac adrodd blaenorol a godwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac eraill;
- yn fwyaf arbennig, dylai ffigurau cymharol 2009-10 a fydd yn cael eu dangos yng nghyfrifon 2010-11 gael eu hailddatgan gyda nodyn yn cadarnhau'r gwariant gormodol ar gyfer y flwyddyn honno. Yr Archwilydd Cyffredinol ddylai benderfynu sut a thros ba gyfnod y dylai'r cronfeydd wrth gefn negyddol sydd wedi codi gael eu hadfer ond dylai ei gynlluniau ar gyfer gwneud hynny hefyd gael eu datgelu.

(Tudalen 10)

Rydym yn argymell bod yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi sicrwydd i ni y bydd yn ystyried cyfeirio unrhyw achosion o gamymddygiad proffesiynol posibl sy'n dod i'r amlwg yn achos staff Swyddfa Archwilio Cymru i'r corff proffesiynol perthnasol.

(Tudalen 20)

# 1. Cyflwyniad

1.1 Rydym ni, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a'n rhagflaenwyr bob amser wedi dangos y parch mwyaf at waith Swyddfa Archwilio Cymru. Mae ei gwaith ariannol a gwerth am arian wedi sicrhau bod cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru wedi cael eu dwyn i gyfrif yn briodol, pan gyfyd yr angen, am reoli'r cyllid cyhoeddus sydd yn eu gofal. Mae archwilio cadarn annibynnol a gwrthrychol yn elfen hanfodol o ddemocratiaeth iach.

1.2 Yn anffodus, mae enw da Swyddfa Archwilio Cymru a'r gwaith neilltuol o dda a wnaethpwyd ac sy'n dal i gael ei wneud gan ei staff wedi ei fwrw i'r cysgod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan weithredoedd Jeremy Colman, cyn Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac eraill. Heblaw am euogfarnu Mr Colman am wneud a bod â delweddau anweddus (pornograffi plant) yn ei feddiant tra oedd yn ei swydd, bu'n rhaid i ni ystyried agweddau eraill ar ei ymddygiad, methu â pharatoi cyfrifon ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru sy'n cydymffurfio'n llawn â'r safonau adrodd ariannol gofynnol, materion yn ymwneud â phriodoldeb, a methu â chynnal y safonau llywodraethu uchel y mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') a'r cyhoedd yr hawl i'w disgwyl gan sefydliad o'r fath. Mae'r methiannau llywodraethu hyn wedi achosi niwed i enw da swydd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, a, hefyd mae'n rhwym o fod wedi tanseilio hyder yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i'r methiannau a ddigwyddodd, ac i'r camau sydd angen eu cymryd i sicrhau na fydd methiannau o'r fath yn digwydd eto. Gobeithiwn y bydd ei gasgliadau a'i argymhellion yn fodd i roi terfyn ar y pryderon cyfrifyddu, llywodraethu a phriodoldeb a gododd yn ystod cyfnod Mr Colman yn y swydd ac a ddaeth i'r amlwg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

1.4 Mae'n gysur mawr i ni fod Archwilydd Cyffredinol newydd Cymru ("yr Archwilydd Cyffredinol") yn ymdrin â'r anawsterau a etifeddwyd ganddo mewn ffordd gadarn, agored a thryloyw. Er ein bod yn siomedig bod y rhan fwyaf o'r sylw yn ystod ei chwe mis cyntaf yn ei swydd wedi canolbwyntio ar fethiannau Mr Colman, rydym yn hyderus y bydd y camau mae'n eu cymryd, ynghyd â'n gweithredoedd a'n hargymhellion ni, yn arwain at ddyfodol cryfach a gwell i archwilio cyhoeddus yng Nghymru.

1.5 Mae ein canfyddiadau, a amlinellir yn yr adroddiad hwn, yn seiliedig ar dystiolaeth a gyflwynwyd i ni. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth lafar a gafwyd

gan Mr Anthony Snow[1] a thystiolaeth ysgrifenedig gan Mr Jeremy Colman.[2] Rhoddir manylion am y dystiolaeth hon fel atodiad i'r adroddiad hwn. Byddem wedi croesawu'r cyfle i wrando ar Mr Colman yn bersonol, ac rydym o'r farn y byddai wedi bod yn bosibl trefnu i hynny ddigwydd. Yn ei lythyr at y Pwyllgor, mae Mr Colman yn nodi'i resymau pam, yn ei farn ef, nad oedd yn addas iddo ymateb i wahoddiad y Pwyllgor i roi tystiolaeth ar lafar. Mae rhain yn seiliedig ar ei feirniadaeth o'r broses o ymchwilio i'w ymddygiad yn ei swydd. Er ein bod wedi ystyried y beirniadaethau hynny, yn ogystal â'r ffaith nad ydym wedi clywed gan Mr Colman yn bersonol nac wedi gallu ei holi am ei fersiwn ef o ddigwyddiadau, rydym yn hyderus fodd bynnag – o feddwl am natur ac ansawdd gweddill y dystiolaeth yr ydym wedi'i ystyried – bod ein casgliadau mewn perthynas ag ymddygiad Mr Colman yn ddibynadwy ac yn deg.

[1] Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2011

[2] Llythyr gan Mr Jeremy Colman at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2011.

# 2. Ystyriaethau cyfrifyddu

***Trosolwg***

2.1 Mae'n ofynnol bod yr Archwilydd Cyffredinol yn cynhyrchu cyfrifon blynyddol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru sy'n cydymffurfio â'r gofyniad a roddir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth[3] sydd, yn ei dro, yn cydymffurfio â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Rhaid i'r cyfrifon hynny gael eu harchwilio gan archwilwyr allanol a benodir gan y Cynulliad.

2.2 Ym mis Medi 2010 daethom yn ymwybodol o becyn diswyddo y cytunwyd arno yn 2009 rhwng yr Archwilydd Cyffredinol ar y pryd – Jeremy Colman a Phrif Swyddog Gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru ar y pryd – Anthony Snow. O ganlyniad i lefel uchel y diddordeb cyhoeddus yn y trafodyn hwn, a'r anniddigrwydd yn ei gylch – gan gynnwys pryderon a wyntyllwyd gennym ni, roeddem yn teimlo bod dyletswydd arnom i ymchwilio i'r modd y cytunwyd ar y pecyn diswyddo ac i ba raddau yr oedd ei natur a'i gost wedi'i adlewyrchu'n eglur a chywir yng nghyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol yn unol â'r safonau adrodd ariannol perthnasol. Rhoddir sylw i'r ystyriaethau priodoldeb sy'n deillio o'r pecyn yn adran tri isod.

2.3 Roeddem yn anniddig iawn o ddeall nad oedd pecyn diswyddo Mr Snow wedi'i gyfrifo'n llawn nac wedi'i ddatgelu'n briodol yng nghyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2009-10. Yn fwyaf arbennig, roedd y pecyn yn cynnwys rhwymedigaeth barhaus i wneud taliadau blynyddol i weinyddwyr y pensiwn hyd at ben blwydd Mr Snow yn 60 oed ac nad oedd hynny wedi'i feintioli. Hefyd, dylai cyfanswm gwerth disgwyliedig y taliadau hynny fod wedi'u cynnwys yng nghyfrifon y Swyddfa yn 2009-10 – ac nid yn y cyfrifon am y blynyddoedd pan wneir y taliadau hynny. Datgelodd ymchwiliad pellach gan Swyddfa Archwilio Cymru fod pecynnau diswyddo cynnar eraill y cytunwyd arnynt ers 2005 wedi'u cyfrifyddu'n anghywir yn yr un ffordd. Comisiynydd yr Archwilydd Cyffredinol dros dro, Ms Gillian Body, adolygiad archwilio mewnol o gyfrifon 2009-10 ac, yn fuan ar ôl ei benodi fel Archwilydd Cyffredinol ym mis Hydref 2010, comisiynodd Mr Huw Vaughan Thomas adolygiad annibynnol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o gyfrifon blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru o 2005 ymlaen.

2.4 Y bwriad wrth wraidd y safonau adrodd ariannol yw y dylai'r cyfrifon fod yn dryloyw, ac y dylent adlewyrchu canlyniadau ariannol y

[3] Trysorlys EM, Y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM)

penderfyniadau a'r trafodion a wnaethpwyd gan sefydliadau yn y flwyddyn pan gawsant eu gwneud. Roedd y driniaeth gyfrifyddu a fabwysiadwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer rhwymedigaethau parhaus yn deillio o setliadau ymddeol cynnar yn golygu, o edrych arnynt yn unigol, bod gwariant yn rhy isel yn y flwyddyn pan gytunwyd ar setliad gyda gwariant rhy uchel cyfatebol wedi'i wasgaru dros nifer o flynyddoedd ariannol yn y dyfodol. Gyda'i gilydd, mae gwariant rhy isel wedi'i gofnodi yng nghyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru am y pum mlynedd rhwng 2005-06 a 2009-10, ac mae cyfanswm hynny'n £1.6 miliwn, fel yr amlinellir yn nhabl 1 isod.

**Tabl 1: Gwariant rhy isel yng nghyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru rhwng 2005-06 a 2009-10**

| | | | | | | ***£'000*** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2005-06 | 2006-07 | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | Five year total |
| **Gwarged/(diffyg) fesul cyfrif SAC** | **34** | **(1,758)** | **12** | **10** | **9** | **(1,693)** |
| *Add* Darpariaeth newydd diswyddo cynnar | (1,195) | - | - | (44) | (994) | (2,233) |
| *Add* Rhyddhau darpariaeth newydd | - | 127 | 171 | 183 | 196 | 677 |
| **Diwygio gwarged /(diffyg)** | **(1,161)** | **(1,631)** | **183** | **149** | **(789)** | **(3,249)** |
| **Gwahaniaeth - ffafriol/(andwyol)** | **(1,195)** | **127** | **171** | **139** | **(798)** | **(1,556)** |

*Ffynhonnell: Adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o Gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru 2005-10, 2010, t.15.*
**SAC = Swyddfa Archwilio Cymru*

2.5 Ers 2007-08, mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*[4] ('y Ddeddf') yn ei gwneud yn ofynnol i'r adnoddau a ddefnyddir gan Swyddfa Archwilio Cymru (a rhai cyrff eraill) yn cael eu hawdurdodi gan gynnig cyllidebol y Cynulliad. Mae'r symiau a awdurdodir yn seiliedig ar amcangyfrif a gyflwynir gan yr Archwilydd Cyffredinol i gael ei ystyried gennym ni cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Yn achos 2009-10 yn fwyaf arbennig, pe bai Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyfrifyddu ar gyfer ei setliadau ymddeoliad cynnar yn gywir, byddai ei chyfrifon wedi dangos alldro adnoddau a oedd £798,000 yn fwy na'r swm a awdurdodwyd. Byddai'r gwariant heb ei awdurdodi hwnnw wedi ei ystyried yn afreolaidd a dylai hynny olygu bod y cyfrifon wedi cael barn archwilio amodol gan yr archwilwyr allanol. Yn hytrach, roedd yr alldro adnoddau a ddangoswyd o fewn y swm a awdurdodwyd ac nid oedd barn yr archwilydd allanol yn amodol.

2.6 Cadarnhaodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol nad oedd y cyfrifon yn cydymffurfio â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol mewn nifer o feysydd. Roedd y rhain yn cynnwys:

[4] *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* c.32

- nid yw'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Tâl yn datgelu gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod o hawliad pensiwn cronnus yr Archwilydd Cyffredinol;
- mae'r arian parod a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn o Gronfa Gyfunol Cymru yn cael ei drin fel incwm yng nghyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru, yn hytrach nag ariannu. Canlyniad hyn yw bod y gost gweithredu net wedi'i datgan yn anghywir, gan ei gwneud yn anodd iawn i ganfod sut y mae'r alldro adnoddau'n cymharu â'r swm a awdurdodwyd yn y cynnig cyllidebol.

***Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu***

2.7 O dan baragraff 16 o atodlen 8 i'r Ddeddf, yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'n ofynnol ei fod ef neu ei bod hi yn llofnodi cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ac yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau eu bod wedi eu paratoi'n gywir yn unol â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol ('FReM'). Mae hefyd yn gyfrifol am reolaeth ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ac mae hyn yn cynnwys sicrhau bod trafodion yn rheolaidd a bod sylw dyledus yn cael ei roi i'r angen am briodoldeb a gwerth am arian.

2.8 Mae Swyddfa Archwilio Cymru, a'r Archwilydd Cyffredinol fel ei swyddog cyfrifyddu, yn atebol i'r Cynulliad ac i ni, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn union yr un modd ag y mae cyrff cyhoeddus eraill yn cael eu harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol. Gwneir hyn yn amlwg yn y llythyr dynodi a gyhoeddir gan y Cadeirydd pan mae'r Archwilydd Cyffredinol yn derbyn y swydd.

2.9 Mae'r rheswm pam y dewisodd yr archwilwyr allanol a benodwyd dderbyn yr hyn sy'n ymddangos fel triniaeth gyfrifyddu amhriodol yn fater y dylid edrych arno ar wahân, ac rydym wedi trafod hyn yn uniongyrchol â hwy, ond nid yw unrhyw weithred neu anwaith ar eu rhan hwy'n lleihau nac yn lliniaru prif gyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu.

2.10 Terfynwyd penodiad yr archwilwyr allanol gyda sêl bendith y ddwy ochr ym mis Ionawr 2011.

***Casgliadau ar y driniaeth gyfrifyddu***

**Er mwyn cywiro'r methiannau a fu mewn datganiadau ariannol blaenorol rydym yn argymell:**

- **dylai Swyddfa Archwilio Cymru ofyn am gyfarwyddyd cyfrifon wedi'i ddiweddaru gan y Trysorlys sy'n adlewyrchu pasio Deddf**

**Llywodraeth Cymru 2006, sefydlu Cronfa Gyfunol Cymru, a'r gofyniad statudol i wariant gan Swyddfa Archwilio Cymru gael ei awdurdodi gan gynnig cyllidebol y Cynulliad;**

- **dylai Cyfrifon 2010-11 gydymffurfio'n llawn â'r cyfarwyddyd cyfrifon diwygiedig a'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol gan ystyried yr holl faterion cyfrifyddu ac adrodd blaenorol a godwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac eraill;**
- **yn fwyaf arbennig, dylai ffigurau cymharol 2009-10 a fydd yn cael eu dangos yng nghyfrifon 2010-11 gael eu hailddatgan gyda nodyn yn cadarnhau'r gwariant gormodol ar gyfer y flwyddyn honno. Yr Archwilydd Cyffredinol ddylai benderfynu sut a thros ba gyfnod y dylai'r cronfeydd wrth gefn negyddol sydd wedi codi gael eu hadfer ond dylai ei gynlluniau ar gyfer gwneud hynny hefyd gael eu datgelu.**

# 3. Priodoldeb

### *Ymddygiad Troseddol*

3.1 Roedd y cyn Archwilydd Cyffredinol, Mr Jeremy Colman, wedi cymryd rhan mewn ymddygiad troseddol drwy ddefnyddio offer cyfrifiadurol Swyddfa Archwilio Cymru mewn mannau sy'n eiddo i Swyddfa Archwilio Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n hysbys i'r cyhoedd fod Mr Colman wedi pledio'n euog i droseddau troseddol, ei fod wedi'i ddedfrydu i wyth mis o garchar a'i fod hefyd yn gorfod cofrestru ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw am gyfnod o ddeng mlynedd.[5]

### *Priodoldeb pecyn diswyddo Anthony Snow*

3.2 Ers i Swyddfa Archwilio Cymru gyhoeddi *Adolygiad o ymddygiad cyn-Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mr Jeremy Colman, yn ei swydd*, mae ein pryderon yn ymwneud ag amgylchiadau pecyn diswyddo Mr Snow wedi dwysau. Mae'r adroddiad hwn, ym mharagraff 49 ar dudalen 17, yn cyfeirio at gamau bwriadol a gymerwyd gan Mr Colman i guddio manylion llawn pecyn diswyddo Mr Snow rhag ymddangos yn y cyfrifon blynyddol *'in a way that was connected with the COO's departure'*.[6] Nid oedd maint llawn y pecyn diswyddo'n ymddangos yn y cyfrifon. Rydym hefyd wedi cael datganiadau ar glawr gan y Partner Cydymffurfio, Mr Simon Edge, lle dywed fod Mr Colman wedi ei gamarwain drwy ddweud nad oedd pecyn diswyddo ar gyfer Mr Snow.[7]

3.3 Cyfarwyddodd Mr Colman y Pennaeth Cyllid i wahardd yr adran Adnoddau Dynol yn benodol o negodiadau ar becyn diswyddo Mr Snow. Yn ôl Mr Snow, gwnaethpwyd hyn ar ei gais ef, yn seiliedig ar ystyriaethau ynghylch ei berthynas ef â Phennaeth yr adran Adnoddau Dynol, a oedd yn adrodd i Mr Snow. Ond, os yw hyn yn wir, roedd yr effaith yn cryfhau gallu Mr Colman i guddio'r trafodion o lygaid y cyhoedd, ac roedd ei benderfyniad na ddylid datgelu natur na maint y pecyn diswyddo i'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ac uwch aelodau staff Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud i ni ddod i'r casgliad ei fod wedi mynd ati'n fwriadol i gamarwain y Cynulliad drwy guddio gwir oblygiadau ariannol ymadawiad Mr Snow.

---

[5] *R v Colman* (2010) cyfeirnod yr achos:T20100502
[6] Swyddfa Archwilio Cymru, *Adolygiad o ymddygiad cyn-Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mr Jeremy Colman, yn ei swydd*, Ionawr 2011
[7] Cofnod y Trafodion 7 Hydref 2010 sesiwn breifat a Chofnod y Trafodion 9 Rhagfyr 2010 c.194-201

3.4 Mae'n bosibl bod y methiant i gyflwyno'r datganiadau ariannol dros nifer o flynyddoedd wedi bod yn ymdrech fwriadol a phenderfynol i guddio gwir gyflwr ariannol Swyddfa Archwilio Cymru dros nifer o flynyddoedd gan aelodau staff a oedd yn gyfrifol am, neu'n goruchwylio'r gwaith o baratoi'r cyfrifon. Yr Archwilydd Cyffredinol fydd yn gyfrifol am ymchwilio'n llawn ac i benderfynu a oedd gan unrhyw rai o'i staff achos i'w ateb yn hyn o beth. Yn ein barn ni, mae'r Archwilydd Cyffredinol, fel y swyddog cyfrifyddu, yn atebol i ni, ac yn y pen draw i'r Cynulliad am weithredu'r swyddogaethau hyn.

3.5 Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ni ynghylch cyflwyno darlun ariannol cywir o Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud i ni gredu bod yr ymdrechion i guddio'r darlun ariannol cywir rhag Swyddfa Archwilio Cymru yn fethiant amlwg ar ran Mr Colman, yr Archwilydd Cyffredinol blaenorol, i gyflawni ei gyfrifoldebau i ni fel swyddog cyfrifyddu, yn enwedig o gofio beth yw natur a diben swydd yr Archwilydd Cyffredinol. Credwn fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Pwyllgor hwn (sy'n gyfrifol am ystyried cyllideb yr Archwilydd Cyffredinol) yn fwyaf arbennig wedi cael eu camarwain yn fwriadol gan y gweithredoedd hyn. Nid ydym yn gwneud datganiad o'r fath heb ddwys ystyried ac ni ddylid tanseilio pwysigrwydd y weithred hon.

3.6 O ganlyniad, credwn fod gweithredoedd Mr Colman yn cyfrif fel camymddygiad i ddibenion paragraff 2(3) o Atodlen 8 i'r Ddeddf. Credwn fod yr achos dros gredu hyn yn cael ei atgyfnerthu os edrychir ar agweddau eraill ar ei ymddygiad yn ei swydd.

### *Hawliadau am hyfforddiant a threuliau*

3.7 Yn ystod ei gyfnod yn y swydd, awdurdododd Mr Colman nifer sylweddol o gyfleoedd hyfforddi ar ei gyfer ei hun ac ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredu. Roedd y rhain ar gyfer hyfforddiant gweithredol a datblygiad personol yn bennaf. Yn achos Mr Colman, roedd hyn yn cyfrif am wariant o oddeutu £37,600 yn ystod ei bum mlynedd yn y swydd.[8] Yn achos Mr Snow, roedd yn cyfrif am gyfanswm o oddeutu £39,700.[9]

3.8 Cafodd yr hyfforddiant hwn ei awdurdodi gan Mr Colman. Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi gallu canfod unrhyw achosion busnes, cysylltiadau â chynlluniau datblygiad personol nac unrhyw gyfiawnhad arall

---

[8] Llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, *Materion a wnaeth godi o ganlyniad i Gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 19 Ionawr 2011*, 10 Chwefror 2011

[9] Llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, *Materion a wnaeth godi o ganlyniad i Gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 9 Rhagfyr 2010*, 12 Ionawr 2011

dros yr hyfforddiant hwn.[10] Pan ymddangosodd Mr Snow gerbron y Pwyllgor, ni wnaeth ein sicrhau ymhellach ynghylch cyfiawnhau'r costau hyfforddiant na'r hyn y byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn ei elwa o gostau'r hyfforddiant.[11] Credwn nad yw maint yr hyfforddiant na'r diffyg cyfiawnhad yn rhoi gwerth am arian ac mai prif fuddiolwyr y gwariant hwn o arian cyhoeddus oedd Mr Colman a Mr Snow. Nid yw ymddygiad o'r fath yn dod yn agos at yr hyn a ddisgwylid gan swyddog cyfrifyddu, yn enwedig yr Archwilydd Cyffredinol. Ystyriwn fod yr ymdriniaeth hon yn symptom ehangach o o ddiwylliant a oedd yn caniatáu i Mr Coleman drechu rheoliadau mewnol pan oedd hynny'n gyfleus iddo ef. Mae gweithredoedd Mr Colman yn hyn o beth wedi achosi i ni amau unwaith eto ei ymddygiad proffesiynol pan oedd yn ei swydd.

### *Ymddygiad staff eraill Swyddfa Archwilio Cymru*

3.9 Ar yr adeg pan lofnodwyd cyfrifon 2009-10, roedd Ms Gillian Body yn gweithredu fel Archwilydd Cyffredinol dros dro ac felly fel swyddog cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru ar y pryd ac felly rhaid iddi dderbyn cyfrifoldeb am y methiannau i baratoi cyfrifon ar gyfer 2009-10 a oedd yn cydymffurfio â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Ar sail y dystiolaeth a roddwyd i ni, rydym o'r farn ei bod wedi dibynnu'n deg ar gyngor proffesiynol ei staff a oedd yn gyfrifol am baratoi ac adolygu'r cyfrifon blynyddol, ac ar yr adroddiad gan yr archwilwyr allanol nad oedd yn tynnu sylw at unrhyw ddiffygion. Fe'i cynghorwyd hefyd gan Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg Swyddfa Archwilio Cymru. Ymddengys i ni nad oedd wedi derbyn y cyngor yr oedd ganddi hawl i'w ddisgwyl o'r ffynonellau hyn.

3.10 Deallwn fod yr Archwilydd Cyffredinol yn ymchwilio ar hyn o bryd i weld a oes unrhyw fai arall neu faterion yn ymwneud â gallu ei staff.

3.11 Mae uwch staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi honni drwy gydol ein hymchwiliad i'r materion hyn nad oeddent yn ymwybodol o faint pecyn diswyddo Anthony Snow ac na wnaethant felly herio'i driniaeth gyfrifyddu.[12] Fodd bynnag, yn unol â chanfyddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol,[13] credwn fod digon o wybodaeth ar gael am natur a maint y pecyn ac felly i herio'r driniaeth gyfrifyddu. Yr hyn sy'n allweddol i hyn yw'r ffaith bod gwybodaeth wedi dod i'r amlwg ym mis Mawrth 2010 fel rhan o'r broses

---

[10] Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2011 c.388
[11] Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2011
[12] Trafodwyd hyn gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei gyfarfodydd ar 7 Hydref 2010 a 9 Rhagfyr 2010
[13] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, *Adolygiad o ddatganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru o 2005 i 2010*, Rhagfyr 2010 p.26

ddiwydrwydd ddyladwy ynghylch bodolaeth pecyn o'r fath, a ddylai fod wedi arwain at ofyn cwestiynau ynglŷn â sut y byddai'r trafodyn yn cael ei ddatgelu yn y cyfrifon. [14]

3.12 Nid ydym yn gwneud argymhelliad o ran y ffordd yr ymdrinnir â materion staffio mewnol yn Swyddfa Archwilio Cymru. Credwn mai'r Archwilydd Cyffredinol ddylai roi sylw i'r mater hwn ac rydym yn gwbl hyderus y bydd yn rhoi sylw teg a thrylwyr i'r materion hyn. Rydym yn disgwyl y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn sicrhau, pan fydd angen, bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu yn sgil yr achos hwn, gan gynnwys atgyfeirio at y cyrff proffesiynol perthnasol, pan yn briodol, ac y bydd yn ein hysbysu o unrhyw fater o bwys, drwy'r pwyllgor a fydd yn ein holynu, pe bai unrhyw faterion o'r fath yn dod i'r amlwg.

[14] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Adolygiad o ddatganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru o 2005 i 2010, Rhagfyr 2010 p.26 a Chofnod y Trafodion 9 Rhagfyr 2010 para. 194-201

## 4. Llywodraethu

4.1 Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, rydym wedi bod yn chwilio am ffyrdd o wella'r trefniadau llywodraethu yn achos Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mewn cydweithrediad â Gweinidogion Cymru, rydym wedi bod yn ceisio cael pwerau deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y maes hwn.

4.2 Yn 2009, roedd yn fwriad gennym ddechrau ymchwilio i drefniadau llywodraethu yn Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, gohiriwyd yr ymchwiliad hwn yn dilyn penderfyniad y cyn Archwilydd Cyffredinol i gomisiynu ei Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol ei hun.[15]

4.3 Canfu'r Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol fod lle i gryfhau a gwella'r trefniadau llywodraethu, ond yn y diwedd roedd ei ganfyddiadau yn amhendant o ran sut y dylid cyflawni'r gwelliant hwn.[16]

4.4 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae gweithredoedd troseddol cyn Archwilydd Cyffredinol Cymru pan oedd yn ei swydd, ynghyd â materion eraill sydd wedi dod i'r amlwg ers ei ymadawiad, wedi ategu'r angen am drefniadau llywodraethu cryfach ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru.

4.5 O dan y Ddeddf, mae swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn "gorfforaeth un person". Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff ond nid yw'n gorff corfforaethol ac yn wahanol i gorff iechyd, dyweder, neu gorff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad nid oes ganddo fwrdd penodedig. Yn achos Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r holl swyddogaethau wedi'u rhoi i'r Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am lywodraethu ei swyddfa.

4.6 Mae'r trefniant hwn yn cadarnhau'r ffaith hysbys bod dyfarniadau archwilio'n cael eu gwneud yn well gan unigolyn na chan fwrdd ac mai'r unigolyn hwnnw sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut y dylai aseiniad archwilio unigol gael ei ariannu a'u weithredu. Mae cyrff eraill fel yr Ombwdsmon, y Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn wedi'u sefydlu yn yr un modd fel corfforaethau un person am resymau tebyg.

4.7 Rydym yn cytuno'n llwyr na ddylai'r Archwilydd Cyffredinol gael ei lyffetheirio wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol fel y bydd dyfarniadau archwilio yn annibynnol a gwrthrychol ac yn cael eu gweld fel dyfarniadau o'r

[15] Swyddfa Archwilio Cymru, Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol, Hydref 2009
[16] Ibid tud. 12

fath. Fodd bynnag, mae digwyddiadau diweddar wedi dangos bod camddefnyddio'r swydd honno'n gallu arwain at ganlyniadau trychinebus. Rydym wedi dod i'r casgliad felly bod angen cryfhau trefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru a'i hatebolrwydd i'r Cynulliad.

4.8 Mae'r Archwilydd Cyffredinol presennol, ers cychwyn yn ei swydd fis Hydref 2010, eisoes wedi cymryd camau breision i wella trefniadau llywodraethu drwy sefydlu dau bwyllgor cynghori newydd ar gyfer adnoddau a thaliadau, yn ychwanegol at y pwyllgor archwilio a rheoli risg presennol. Bydd y pwyllgorau hyn yn cynnwys aelodau annibynnol a benodir gan yr Archwilydd Cyffredinol, gyda chyfraniad gan unigolyn a enwebir gan Gadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad, gan ddefnyddio'r broses penodiadau cyhoeddus. Yn naturiol, rydym yn croesawu'r trefniadau hyn ond nid oes gofyniad cyfreithiol arno i roi mesurau o'r fath ar waith a byddai'n hawdd iawn i Archwilydd Cyffredinol arall eu diddymu yn y dyfodol. Credwn yn gryf fod angen grym statudol i ategu trefniadau llywodraethu a gryfheir os ydym am fod yn hyderus na all y camymddwyn a welwyd yn ystod cyfnod Mr Colman fyth digwydd eto.

4.9 Mae *Deddf Cyfrifoldeb am Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol 2011*[17] (sydd newydd ddod yn gyfraith) yn cynnwys diwygiadau i Atodlen 7 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* a fydd yn rhoi'r cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol i'r Cynulliad Cenedlaethol amlinellu trefniadau llywodraethu, ymhlith pethau eraill, ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru mewn Deddf Cynulliad. Er mai'r Pedwerydd Cynulliad fydd yn penderfynu sut y dylid gweithredu'r pwerau hyn, rydym yn cynnig yr awgrymiadau canlynol fel man cychwyn i'w hystyried gan y pwyllgor a fydd yn ein holynu:

- gosod y trefniadau ar gyfer taliadau a thymor swydd yr Archwilydd ar seiliau statudol;
- sefydlu Bwrdd Cynghori Annibynnol i oruchwylio'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru. Yn bwysig iawn, byddai'r Bwrdd yn cael ei benodi gan ac felly'n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Byddai'r Bwrdd yn gallu sefydlu pwyllgorau a byddai'n ofynnol iddo sefydlu pwyllgor archwilio – gallai benderfynu mabwysiadu'r strwythur pwyllgor sy'n cael ei roi ar waith ar hyn o bryd gan yr Archwilydd cyffredinol; a
- byddai'r Bwrdd yn rhydd i gynghori'r Archwilydd cyffredinol ar unrhyw agwedd ar ei waith a threfniadau llywodraethu ei swyddfa ond

[17] *Deddf Cyfrifoldeb am Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol 2011*, Pennod 4

byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn cadw'i gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru a byddai'n parhau i weithredu'n ddilyffethair o safbwynt cyfeiriad strategol, dyfarniadau archwilio, ac adrodd ar ac adnoddau aseiniadau archwilio.

4.10 Yn amodol ar gadw annibyniaeth strategol a gweithredol yr Archwilydd Cyffredinol, byddai'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn gallu pennu dyletswyddau'r Bwrdd, gan gynnwys, er enghraifft, sefydlu a goruchwylio fframwaith costau teithio a chynhaliaeth ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol ac uwch staff, cytuno ar drefniadau hyfforddiant a datblygiad, a sicrhau bod prosesau priodol ar waith ar gyfer penodiadau a llenwi swyddi gwag.

4.11 Gall ein canfyddiadau yma o ran swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru arwain at oblygiadau i gorfforaethau un person eraill yng Nghymru.

## 5. Casgliadau

5.1 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym yn dod i'r casgliadau a amlinellir yn yr adran hon.

5.2 Gyda gofid mawr yr ydym wedi gorfod ystyried y materion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Maent yn deillio'n bennaf o weithredoedd un person a benderfynodd na ddylai safonau priodoldeb a llywodraethu da swydd yr Archwilydd Cyffredinol fod yn weithredol yn ei achos ef. Nid oedd ymddygiad Mr Colman yn dod yn agos at yr hyn y dylem ei ddisgwyl gan berson sy'n llenwi swydd yr Archwilydd Cyffredinol. Hyd yn oed pe na bai Mr Colman wedi'i gael yn euog o droseddau troseddol, credwn y byddai agweddau ar ei ymddygiad yn y swydd wedi cyfrif fel camymddygiad i ddibenion paragraff 2(3) o Atodlen 8 i'r Ddeddf. O ganlyniad i hyn, pe bai Mr Colman yn dal yn ei swydd, byddem wedi'n gorfodi i gynghori'r Cynulliad i argymell Ei Mawrhydi'r Frenhines iddo gael ei ddiswyddo.

5.3 Wrth ystyried y dystiolaeth sydd gerbron, rydym wedi gofyn a ddylai unrhyw faterion gael eu cyfeirio un ai at gyrff proffesiynol neu'r heddlu er mwyn ymchwilio ymhellach iddynt. Daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad yn ei adolygiad o ymddygiad Mr Jeremy Colman, y cyn Archwilydd Cyffredinol, a gynhaliwyd tra roedd yn ei swydd, ac yn dilyn cyngor cyfreithiol, nad oedd dim materion pellach yn ymwneud ag ymddygiad Mr Colman wedi'u canfod ac a ddylai gael eu cyfeirio at yr heddlu.

5.4 Er hyn, rydym yn parhau i fod yn bryderus. Nid ydym mewn sefyllfa i benderfynu a yw ymddygiad Mr Colman yn cyfrif fel ymddygiad troseddol posibl. Heb gyfeirio'r materion hyn at awdurdod priodol i ymchwilio iddynt bydd amheuaeth yn parhau a oes unrhyw achosion o ymddygiad troseddol posibl yn aros heb ymchwilio iddynt.

5.5 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ystyried a allai'r dystiolaeth a gasglwyd olygu bod Mr Colman yn euog o gamymddygiad tra roedd mewn swydd gyhoeddus. Credwn y gellid ystyried y dystiolaeth hon ymhellach hefyd i ganfod a oedd unrhyw achosion eraill o ymddygiad troseddol ynghlwm wrth y mater.

5.6 Felly, mae'r Pwyllgor wedi cytuno y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Heddlu De Cymru i ofyn iddo edrych ar yr holl dystiolaeth gyda golwg ar benderfynu a oes unrhyw achosion pellach o ymddygiad troseddol posibl y dylid ymchwilio ymhellach iddynt.

5.7 Fel y nodwyd uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi comisiynu adolygiad annibynnol o weithgareddau aelodau penodol o'i staff presennol. Nid ydym am ragfeddiannu na niweidio'r adolygiad hwn nac unrhyw benderfyniadau wedi hynny y mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol eu gwneud ar sail ei ganfyddiadau.

5.8 **Rydym yn argymell bod yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi sicrwydd i ni y bydd yn ystyried cyfeirio unrhyw achosion o gamymddygiad proffesiynol posibl sy'n dod i'r amlwg yn achos staff Swyddfa Archwilio Cymru i'r corff proffesiynol perthnasol.**

5.9 Rydym wedi cytuno y dylai'r Cadeirydd wneud atgyfeiriad uniongyrchol i'r cyrff proffesiynol perthnasol yn achos Mr Colman a'r archwilwyr allanol, ac y dylai'r Cadeirydd ddwyn sylw cyrff proffesiynol perthnasol i gynnwys yr adroddiad hwn yn gyffredinol, yn amodol ar ymchwiliad mewnol yr Archwilydd Cyffredinol, o ystyried rôl posibl unigolion eraill mewn perthynas â'r materion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

5.10 Gobeithio bod yr adroddiad hwn yn dechrau cau pen y mwdwl ar bryderon cyfrifyddu, llywodraethu a phriodoldeb a ddatblygodd yn ystod cyfnod Mr Colman yn y swydd ac a ddaeth i'r amlwg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion a, gyda phwerau cyfreithiol cryfach ar y gorwel, rydym yn hyderus y bydd y pwyllgor a fydd yn ein holynu yn y Pedwerydd Cynulliad mewn sefyllfa i ategu hyn â grym statudol i sicrhau na all y methiannau a ganfuwyd fyth ddigwydd eto.

## 6. Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-ac-home/bus-committees-third-ac-agendas.htm

7 Hydref 2010

Huw Vaughan-Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru

Gillian Body, Partner Rheoli – Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru

Kevin Thomas, Partner Rheoli – Cynllunio ac Adnoddau, Swyddfa Archwilio Cymru

Simon Edge, Partner Ymgysylltu – Cydymffurfio, Swyddfa Archwilio Cymru

9 Rhagfyr 2010

Huw Vaughan-Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru

Gillian Body, Partner Rheoli – Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru

Kevin Thomas, Partner Rheoli – Cynllunio ac Adnoddau, Swyddfa Archwilio Cymru

Simon Edge, Partner Ymgysylltu – Cydymffurfio, Swyddfa Archwilio Cymru

19 Ionawr 2011

Gareth Lynn, Cyfarwyddwr, KTS Owens Thomas Cyf.

Carol Warburton, Cyfarwyddwr, KTS Owens Thomas Cyf.

23 Mawrth 2011

Mr Anthony Snow

Mr Michael Breach

## 7. Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Defnyddiodd y Pwyllgor y dystiolaeth ysgrifenedig a ganlyn:

Swyddfa Archwilio Cymru, Adolygiad o ymddygiad cyn-Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mr Jeremy Colman, yn ei swydd, Ionawr 2011

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Adolygiad o Gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru o 2005 i 2010, Rhagfyr 2010

Swyddfa Archwilio Cymru, Adolygiad Cymheiriaid Rhwngwladol, Hydref 2009

Deddf Cyfrifoldeb am Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol 2011 c.4

Adroddiad blynyddol a chyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol o fis Ebrill 2009 i fis Mawrth 2010, Mehefin 2010

Swyddfa Archwilio Cymru, Adolygiad Mewnol o Gyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rhagfyr 2010

Llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Materion a wnaeth godi o ganlyniad i Gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 19 Ionawr 2011, 10 Chwefror 2011

Llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Materion a wnaeth godi o ganlyniad i Gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 9 Rhagfyr 2010, 12 Ionawr 2011

Llythyr gan Mr Jeremy Colman at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 18 Chwefror 2011

Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch gohebiaeth gan Mr Colman, 24 Chwefror 2011